

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET
CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE**

PWNC/SUBJECT:

Atodiad i Bolisi Cludiant Ysgolion – sefyllfa methu agor ysgol (neu ran o ysgol)

School Transport Policy Appendix – situations where it is not possible to open a school (or part of a school)

AELOD CABINET/CABINET MEMBER:

Y Cyngorydd / Councillor Gareth Thomas

PENDERFYNIAD/DECISION :

Mabwysiadu 'Polisi Cludiant sefyllfa methu agor ysgol (neu ran o ysgol)' fel atodiad i Bolisi Cludiant Ysgolion cyfredol y Cyngor i ddod i rym yn unol â'r amserlen statudol ac hysbysu'r newid yn ôl gofyn y ddeddfwriaeth.

Adopt the 'School Transport in situations where it is not possible to open a school (or part of a school) Policy' as an appendix to the Council's current School Transport Policy and to be enabled in accordance to the statutory timetable and give notice of the change according to the requirements of legislation.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION:

Gwelwyd yr angen i ffurfioli'r trefniadau cludiant dros dro mewn sefyllfa ble nad yw'n bosib agor ysgol ddalgylch (neu ran o ysgol ddalgylch) am gyfnod o amser. Byddai'r trefniadau dros dro ond yn dod i rym pan na ellir agor ysgol (neu ran o ysgol) ddalgylch, h.y. pan mae'r Cyngor yn methu â darparu ysgol ddalgylch ar gyfer disgyblion ardal benodol.

The need to formalise the temporary travel arrangements in situations where it is not possible to open a catchment school (or part of a catchment school) for a period of time has been recognised. The temporary arrangements would only be applied when it is not possible to open a catchment school (or part of a catchment school), i.e. when the Council is unable to provide a catchment school for the pupils of a particular area.

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS:

Pan na fydd hi'n bosib agor ysgol (neu ran o ysgol) ddalgylch fe ystyrir bod dalgylch yr ysgol nad yw'n bosib ei hagor yn dod yn rhan o ddalgylch gwahanol (e.e. dalgylch ysgol gyfagos (neu ddalgylch mwy estynedig na hynny os oes angen) er mwyn sicrhau adeilad addas sydd ar gael i gartrefu'r ysgol). Nodir mai dalgylch ysgol damcaniaethol ar gyfer cludiant yn unig yw hyn hyd nes bod dyfodol yr ysgol wedi'i sefydlu.

Cymhwysir Polisi Cludiant Ysgolion arferol y Cyngor i'r dalgylch gwahanol, newydd, dros dro hwn. (Gweler yr atodiad.)

Bydd y polisi yn cael ei ychwanegu fel atodiad i'r Polisi Cludiant cyfredol (ond ni fydd yn cael ei gyhoeddi yn y Llyfryn Gwybodaeth i Rieni nac ar wefan y Cyngor). Ychwanegir brawddeg at yr hyn sy'n cael ei gyhoeddi yn nodi bod trefniadau cludiant amgen yn bodoli ar gyfer sefyllfaoedd lle na ellir agor ysgol (neu ran o ysgol) ddalgylch.

When it is not possible to open a catchment school (or part of a catchment school) it will be considered that the catchment area of the school which cannot be opened becomes part of a different catchment area (e.g. the catchment of a neighbouring school (or a more extended catchment area if needs be) in order to ensure the availability of a suitable building to house the school). It is noted that this is a hypothetical catchment area for the purposes of transport only until the future of the school is established.

The Council's normal School Transport Policy will be applied to this temporary different and new catchment area. (See appendix.)

The policy will be added as an appendix to the current Transport Policy (but it will not be published in the Information for Parents Booklet or on the Council website). A sentence will be added to the published information noting that alternative transport arrangements exist for situations where it is not possible to open a catchment school (or part of a catchment school).

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:-

“Mae'r hyn a awgrymir yn gynnig cwbl rhesymol yr wyf yn ei gefnogi.”

“What is being proposed is entirely reasonable and I give it my support.”

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

“Mae'r Atodiad i'r Polisi Cludiant yn cynnig ymateb pragmataidd i sefyllfaoedd penodol sydd yn codi o bryd i'w gilydd. Mae trefn statudol i'w dilyn ar gyfer gweithredu'r newid ac mae'r penderfyniad yn cyfarch hyn. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.”

“The Appendix to the Transport Policy offers a pragmatic response to specific situations which arise from time to time. There is a statutory process to follow to effect the change and the decision addresses this. There are no further comments relating to propriety.”

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

“Credaf fod y polisi newydd yn synhwyrol ac yn ffurfioli trefniadau mewn sefyllfaoedd anghyffredin heb ychwanegu cost hir-dymor.”

"I believe that the new policy is sensible and formalises the arrangements in unusual circumstances without adding long-term cost."

BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER:

Dim yn berthnasol.

Not applicable.

LLOFNOD / SIGNED

DYDDIAD/DATE



25/09/15

Polisi Cludiant sefyllfa methu agor ysgol (neu ran o ysgol)

Cyflwynir trefniadau cludiant dros dro mewn sefyllfa ble nad yw'n bosib agor ysgol ddalgylch (neu ran o ysgol ddalgylch) am gyfnod o amser.

Gall sefyllfaoedd fel hyn godi, er enghraifft, o fethu â staffio ysgol, neu lle bo difrod wedi bod mewn ysgol (e.e. tân). Gall y trefniadau fod ar gyfer ystod oedran cyfan ysgol, neu ystod o oeddrannau penodol o fewn ysgol (yn dibynnu ar yr amgylchiadau).

Pan na fydd hi'n bosib agor ysgol (neu ran o ysgol) ddalgylch fe ystyrir bod dalgylch yr ysgol nad yw'n bosib ei hagor yn dod yn rhan o ddalgylch gwahanol (e.e. dalgylch ysgol gyfagos (neu ddalgylch mwy estynedig na hynny os oes angen) er mwyn sicrhau adeilad addas sydd ar gael i gartrefu'r ysgol).

Cymhwysir Polisi Cludiant Ysgolion arferol y Cyngor i'r dalgylch gwahanol, newydd, dros dro hwn.

Felly,

darperir cludiant di-dâl i ddisgyblion sy'n byw yn y Sir ac sydd wedi cofrestru mewn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor

- Ysgolion cynradd - ar gyfer disgyblion sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol agosaf (neu adeilad addas) yn y dalgylch gwahanol, newydd dros dro ble mae llefydd ar gael, neu i ysgol sydd ddim yn y dalgylch gwahanol, newydd dros dro ond sydd yn agosach at gartref y disgybl (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin).
- Ysgolion uwchradd - ar gyfer disgyblion o dan 16 oed sy'n byw 3 milltir neu ymhellach o'r ysgol agosaf (neu adeilad addas) yn y dalgylch gwahanol, newydd dros dro ble mae llefydd ar gael, neu i ysgol sydd ddim yn y dalgylch gwahanol, newydd dros dro ond sydd yn agosach at gartref y disgybl.

School Transport in situations where it is not possible to open a school (or part of a school) Policy

Temporary travel arrangements will be introduced in situations where it is not possible to open a catchment school (or part of a catchment school) for a period of time.

Situations such as these may arise, for example, when it has not been possible to staff a school, or a school has suffered damage (e.g. a fire). The arrangements could be for the whole age range of a school, or for a specific age range in a school (depending on the circumstances).

When it is not possible to open a catchment school (or part of a catchment school) it will be considered that the catchment area of the school which cannot be opened becomes part of a different catchment area (e.g. the catchment of a neighbouring school (or a more extended catchment area if needs be) in order to ensure the availability of a suitable Building to house the school).

The Council's normal School Transport Policy will be applied to this temporary different and new catchment area.

So,

free transport will be provided to learners who live in the County and who have registered in a school maintained by the Council

- *Primary schools – for learners who live 2 miles or more from the nearest school (or suitable building) in the new, different, temporary catchment area where places are available, or to a school which is not in the new, different temporary catchment area, but is closer to the learner's home (does not include nursery class pupils)*
- *Secondary schools – for learners under 16 years old who live 3 miles or more from the nearest school (or suitable building) in the new, different, temporary catchment area where places are available, or to a school which is not in the new, different temporary catchment area, but is closer to the learner's home.*